# CYMORTH LLYTHRENNEDD

# LITERACY SUPPORT

YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Tachwedd 2023
November *2023*

## Beth am lyfrau Cymraeg fel anrhegion Nadolig?





## *How about Welsh books as Christmas presents?*

Ble i brynu llyfrau Cymraeg? *Where to buy Welsh books?*



**Siop Tŷ Tawe yn Abertawe**

**gwales.com**

**amazon**

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | Bl.9+ | Dyma nofel arswyd fer ar gyfer darllenwyr anfoddog 14+ oed, sy'n rhan o gyfres *Stori Sydyn*. Pan mae pedwar hen ffrind coleg yn mynd i wersylla yng Nghwm Darran, mae un ohonyn nhw'n mynd ar goll dros nos. Ac mae pethau'n gwaethygu'n gyflym! Stori sy'n mynd i roi ias i lawr eich asgwrn cefn!<br><br>A short horror story for reluctant, 14+ year old readers. Part of the *Stori Sydyn* series. When four college friends go camping to Cwm Darran, one of them goes missing overnight ... and things go from bad to worse swiftly! A story to send a shiver down your spine! | £1.00 |
|  | Bl.7 a 8 | Gall newidiadau bach wneud BYD o wahaniaeth! Pan fydd Maia yn dewis thema Masnach Deg ar gyfer ei phrosiect dosbarth, mae hi'n cael tipyn o fraw wrth weld sut mae rhai o'i hoff ddillad yn cael eu gwneud. Oes ffordd iddi hi helpu i wneud ffasiwn yn fwy teg? A sut gall hi wneud hynny heb ddatgelu ei chyfrinach fawr?<br><br>The first, fantastic book in the series about four friends. A brilliant series about small changes that make a big difference, with themes of environmentalism and friendship. Researching her school project on Fairtrade has been a real eye-opener for Maia. She loves clothes and is appalled to find that her favourite sparkly T-shirts are made by poor children in other countries. | £6.99 |
|  | Bl.9+ | Nofel yw *Powell* am berthynas taid a'i ŵyr sy'n cyffwrdd ar berthynas Cymru gyda chaethwasiaeth, ac sy'n trafod sut i gydnabod erchyllterau ein hanes mewn ffordd sensitif. Ar ôl archwilio achau'r teulu, mae Taid ac Elis yn mynd i Virginia yn yr Unol Daleithiau i aildroedio llwybrau Edward Powell.<br><br>This novel about the relationship between a grandfather and his grandson touches on Wales's relationship with slavery, and discusses how to acknowledge the horrors of history in a sensitive way. After exploring the family's ancestry, Elis and Taid journey to Virginia, USA to tread in the footsteps of Edward Powell. | £8.99 |
|  | Bl.8+ | Pwrpas y llyfr hwn yw ysbrydoli darllenwyr ifanc gan rannu dros 50 o straeon gan arddegwyr heddiw sydd yn ceisio newid y byd mewn ffyrdd amrywiol. Mae'r awdur llwyddiannus, Margaret Rooke, yn cyfweld â'r arddegwyr sydd am newid y drefn o fewn byd sydd ag obsesiwn hefo enwogion a chyfryngau cymdeithasol.<br><br>The aim of this book is to inspire young readers by sharing over 50 stories by today's teenagers who wish to change the world in various ways. The successful author, Margaret Rooke, interviews the teenagers who seek to change things in a world obsessed by famous people and social media. | £12.99 |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | Bl.7 a 8 | Dyma nofel ar gyfer darllenwyr rhwng 10 ac 13 oed. Mae'n ymdrin â pherthynas rhwng plant ysgol, bwlio, a'r syniad o gorff perffaith. Mae Beca'n cael ei bwlio, ond mae ganddi gyfrinach - mae'n gobeithio cael ei dewis i dîm nofio Cymru.<br><br>A novel for girls between 10 and 13 years old mainly. It deals with the relationship between schoolchildren, bullying and the concept of a perfect body. Beca is being bullied, but she has a secret - she hopes to be chosen as a member of the Welsh swimming team. | £5.99 |
|  | Bl.10+ | Set focs o bump nofel fer sy'n cydblethu. Mae *Y Pump* yn dilyn criw o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Llwyd, wrth iddynt ddarganfod y pwer sydd gan eu harallrwydd pan maen nhw'n dod at ei gilydd fel cymuned. Gyda safbwyntiau unigryw Tim, Tami, Aniq, Robyn a Cat yn ein tywys, down i adnabod realiti cymhleth bod yn berson ifanc ar yr ymylon heddiw. Enillydd gwobr Tir na n-Og 2022.<br><br>A box set of five short novels which interweave, following the stories of five friends in their final year at school. This is an exciting and ambitious project by young authors for young people. Tir na n-Og Award Winner 2022. | £25 am 5.<br>£5.99 yr un |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | Bl.8+ | Canllaw i'r arddegwyr er mwyn atgyfnerthu eu hapusrwydd a'u dycnwch. Mae'r canllaw hwn yn cynnig yr arfau i chi adeiladu eich hyder, dileu teimladau negyddol a hybu dedwyddwch ym mhob agwedd o'ch bywyd.<br><br>The teenage guide to boosting happiness and resilience. This positive and insightful guide gives you the tools to build your confidence, eliminate negative feelings and boost happiness in all areas of your life. Scientists reckon 40% of your happiness is within your control, that's A LOT of happiness and this book will help you to harness it... | £9.99 |
|  | Bl.7+ | Llyfr coginio difyr gydag arddull ffres a deniadol sy'n sicr o apelio at bobl ifanc. Ryseitiau syml, blasus a phob un yn defnyddio 10 cynhwysyn, 10 cam paratoi neu'n cymryd 10 munud neu lai i'w gwneud. Sganiwch y codau QR er mwyn ymuno gyda Mr Henry a dilyn ei haciau i weini bwyd maethlon, blasus!<br><br>An entertaining cooking book in a lively style which will appeal to teenagers. Scan the QR code to join Mr Henry and follow his ideas to serve nourishing, tasty dishes! | £12.99 |
|  | Bl.7 a 8 | *Pêl-droed Penigamp* yw'r ail lyfr yn y gyfres *Campau Campus*. Efallai mai'r disgrifiad gorau o'r gyfres yw math o 'Horrible Histories' neu 'Hanesion Hyll' ar gyfer campau gwahanol. Y tro hwn, pêl-droed gaiff y sylw. Addasiad Cymraeg gan Elinor Wyn Reynolds o *Stupendous Sports: Fantastic Football*.<br><br>The second title in the *Campau Campus* series. Perhaps the best description of these titles is a kind of 'Horrible Histories' about various sports. This title deals with football and is a Welsh adaptation by Elinor Wyn Reynolds of *Stupendous Sports: Fantastic Football*. | £6.99 |
|  | Bl.7 a 8 | Mae *Rygbi Rhempus* yn llawn ffeithiau difyr a doniol am rygbi; yn rhoi cip ar hanes y gêm, a'i rheolau ac (yn bwysicaf oll) yn cyfleu ysbryd y gêm wych hon.<br><br>*Rygbi Rhempus* is full of entertaining and humorous facts about rugby; providing a glimpse at its rules and (most important of all) conveying the spirit and passion of this wonderful game. | £6.99 |